



HM Government

# **Adroddiad Comisiynydd Cam-drin Domestig: "Clytwaith o Ddarpariaeth: sut i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ar draws Cymru a Lloegr"**

**- Ymateb y llywodraeth**

Mawrth 2023





**Adroddiad y Comisiynydd Cam-drin Domestig:  
"Clytwaith o Ddarpariaeth: sut i ddiwallu anghenion  
dioddefwyr a goroeswyr ledled Cymru a Lloegr"**  
- Ymateb y llywodraeth

Mawrth 2023



© Hawlfraint y Goron 2020

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3)

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn [VAWGEnquiries@homeoffice.gov.uk](mailto:VAWGEnquiries@homeoffice.gov.uk).

Wedi'i argraffu ar bapur sy'n cynnwys 75% isafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan yr APS Group ar ran rheolwr Swyddfa Ysgrifennu Ei Fawrhydi

# Cynnwys

Cynnwys	1
Cyflwyniad	3
Llywodraeth Cymru	4
Ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion yn yr adroddiad	5
Gwasanaethau Cam-drin Domestig Arbenigol (Argymhelliad 1, 3 a 5)	5
Monitro galw (Argymhelliad 2, 4 a 6)	9
Ymyriadau Cyflawnwyr (Argymhelliad 7)	10
Cyllid (Argymhelliad 8)	11
Cyllid (Argymhellion 9 ac 11)	12
Hyfforddiant Sector Cyhoeddus (Argymhellion 10 ac 20)	14
Dioddefwyr a goroeswyr sy'n wynebu anfantais luosog (Argymhellion 12, 13 a 14)	18
Comisiynwyr lleol (Argymhellion 15, 16, 17 a 21)	21
Dioddefwyr a goroeswyr ag anableddau dysgu (Argymhelliad 18 & 19)	23
IDVAs ac ISVAs (Argymhelliad 22)	25
Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (Argymhelliad 23, 24 & 25)	26
Strategaeth Ariannu Dioddefwyr (Argymhelliad 26)	29
Casgliad	30



# Cyflwyniad

Mae'r Swyddfa Gartref yn ddiolchgar i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig (DAC) am gyhoeddi ei hadroddiad: '[Clytwaith o Ddarpariaeth: sut i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ar draws Cymru a Lloegr](#)', a'r ymdrech mae tîm y Comisiynydd a phartneriaid allanol wedi gwneud i ymchwilio i'r mater hwn.

Mae cam-drin domestig yn annioddefol, weithiau'n angheuol, ac yn llawer rhy gyffredin. Mae'r niferoedd yn uchel: yn effeithio ar 2.4 miliwn o oedolion bob blwyddyn. Mae'n niwed uchel; mae un o bob pum dynladdiad yn ddynladdiad domestig. Ac mae'n gost uchel; amcangyfrifir bod costau cymdeithasol ac economaidd cam-drin domestig oddeutu £78 biliwn (prisiau 2022/23) dros gyfnod o dair blynedd ar gyfartaledd o gamdriniaeth.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi holl ddioddefwyr cam-drin domestig, ni waeth ble maent yn byw. Nod yr adroddiad '[Clytwaith o Ddarpariaeth: sut i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr ar draws Cymru a Lloegr](#)' yw gwella dealltwriaeth o ba wasanaethau sydd ar waith, i bwy, a lle maen nhw wedi'u lleoli er mwyn amlygu bylchau presennol yn y gwasanaethau a ddarperir.

Mae'r adroddiad yn cyffwrdd ar faterion eang sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau cam-drin domestig. Mae hyn yn cynnwys y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig, darparu gwasanaethau arbenigol gan gynnwys i'r rhai sy'n wynebu anfantais luosog a chynyddu ymwybyddiaeth ac allgymorth y gwasanaethau cymorth sydd eisoes ar gael.

Rydym eisoes yn bwrw ymlaen â gwaith sy'n cefnogi dioddefwyr y troseddau ofnadwy hyn. Mae hyn yn cynnwys gweithredu ymrwymadau yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched a'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig gyda buddsoddiad o £140 miliwn i gefnogi dioddefwyr, y mae lleiafswm o £47 miliwn ohono wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr dros dair blynedd.

Fel y nodir yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022, byddwn yn defnyddio canlyniadau ymarfer mapio'r Comisiynydd Cam-drin Domestig o wasanaethau ledled Cymru a Lloegr i nodi bylchau a thargeddu cyllid llywodraeth ganolog yn well at wasanaethau lleol. Rydym eisoes wedi cyhoeddi fersiwn wedi'i diweddarau o'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol a Phecyn Cymorth Comisiynu VAWG sy'n cyd-fynd â'r rhain sy'n ceisio darparu canllawiau clir a chyson i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth effeithiol i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched.

Fe wnaethom hefyd gyhoeddi'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr ym mis Mai 2022, sy'n nodi fframwaith a fydd yn gwella'r ffordd yr ydym yn ariannu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ar draws y llywodraeth, gan geisio alinio a chydgysylltu cyllid yn well er mwyn galluogi dioddefwyr i gael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Fe wnaeth y Comisiynydd Cam-drin Domestig 26 o argymhellion yn ei hadroddiad. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn neu dderbyn yn rhannol 17 o argymhellion. Ni dderbyniwyd 5. Mae pedwar argymhelliad ychwanegol wedi'u hanelu at y rhai sy'n comisiynu gwasanaethau lleol. Lle nad yw'r Llywodraeth wedi derbyn argymhelliad, nid ydym o reidrwydd yn anghytuno, ond bod y Llywodraeth yn cyflawni amcanion yr argymhellion hyn

trwy ddefnyddio ymyriadau a ffrydiau ariannu eraill. Lle mae hyn yn wir, rydym wedi egluro'r rhesymeg yn glir.

## Llywodraeth Cymru

Mae adran 16 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn gosod dyletswydd statudol ar Lywodraeth y DU i ymateb i adroddiad gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig a gyhoeddwyd o dan adran 8 o'r Ddeddf. Nid yw'r Ddyletswydd hon yn berthnasol i Lywodraeth Cymru ac felly Llywodraeth y DU sy'n cyhoeddi'r ymateb hwn. Mae gwasanaethau ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) wedi'u datganoli i Gymru o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu cyllid ac ymhellach, i arfer swyddogaethau gweinidogol gweithredol mewn perthynas â materion o fewn cymhwysedd datganoledig dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar unrhyw feysydd sy'n gorgyffwrdd wrth i ni weithredu ein Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig a Mynd â'n Strategaeth Mynd i'r Afael â VAWG. Dylai cyrff datganoledig a sefydliadau lleol yng Nghymru gyfeirio at ganllawiau statudol sy'n gysylltiedig â Deddf 2015, yn ogystal â'r pecyn cymorth ar gyfer comisiynu gwasanaethau o'r fath yng Nghymru.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol VAWDASV ddiweddaraf ym mis Mai 2022. Mae'r Strategaeth yn nodi'r amcanion trosfwaol y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i fwrw ymlaen â diben Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Bydd y strategaeth yn cael ei gweithredu trwy ddull glasbrint sy'n gweld cydweithio rhwng sefydliadau datganoledig a rhai heb eu datganoli yn ogystal â'r sector arbenigol. Bydd gwaith ar gyflawni'r Strategaeth yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, gyda ffrydiau gwaith ar gyfer aflonyddu ar y stryd a diogelwch mewn mannau cyhoeddus; aflonyddu yn y gweithle; mynd i'r afael â chyflawniadau; comisiynu cynaliadwy, plant a phobl ifanc a phobl hŷn yn ogystal â Phanel Craffu a Chynnwys Goroewyr ar wahân. Bydd y grŵp comisiynu cynaliadwy yn sicrhau sefydlogrwydd a chysondeb ar gyfer darparu gwasanaethau. Bydd hyn yn sicrhau, ni waeth ble mae dioddefwr, goroeswr neu gyflawnwr yn byw yng Nghymru, fod yn wasanaeth cyhoeddus ac arbenigol cryf yn barod i helpu. O dan adran 20 o Ddeddf VAWDASV 2015 mae Llywodraeth Cymru wedi penodi Cynghorwyr Cenedlaethol i gynghori a chynorthwyo Gweinidogion Cymru ar fynd ar drywydd pwrpas y Ddeddf: atal cam-drin ar sail rhyw gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol ac amddiffyn a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr.



# Ymateb Llywodraeth y DU i argymhellion yn yr adroddiad

## Gwasanaethau Cam-drin Domestig Arbenigol (Argymhelliad 1, 3 a 5)

**Argymhelliad 1: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyflwyno dyletswydd ar gomisiynwyr lleol i gydweithio i gomisiynu gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol, cynnal asesiadau anghenion strategol ar y cyd, a dylai'r ddyletswydd hon gyd-fynd â dyletswydd newydd ar lywodraeth ganolog i ddarparu cyllid i ddiwallu'r angen hwn yn ddigonol.**

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth fframwaith i ddod â chomisiynwyr lleol ynghyd wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth. Drwy'r Bil Dioddefwyr, byddwn yn cyflwyno dyletswydd ar gomisiynwyr lleol - sef, awdurdodau lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCCau) a Byrddau Gofal Integredig (ICBs) – i gydweithio wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig, cam-drin rhywiol a thrais difrifol eraill. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiynau wedi'u diweddarau o'r Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau a'r Pecyn Cymorth Comisiynu VAWG sy'n cyd-fynd ag ef i ddarparu canllawiau clir a chyson i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth effeithiol i ddioddefwyr trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin domestig. Mae'r dogfennau newydd yn rhoi pwyslais pellach ar bwysigrwydd comisiynu 'gan ac ar gyfer'<sup>1</sup> a gwasanaethau arbenigol ac ar weithio gyda sefydliadau VAWG arbenigol i ddeall pa wasanaethau sydd eu hangen ar lefel lleol. Yn ogystal, mae Deddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd 2022 yn darparu ar gyfer Dyletswydd Trais Difrifol er mwyn sicrhau bod awdurdodau penodedig ledled Cymru a Lloegr (gan gynnwys yr heddlu, gwasanaethau tân ac achub, iechyd, awdurdodau lleol, timau troseddau ieuencid a gwasanaethau prawf) i weithio ar y cyd, rhannu data a gwybodaeth i roi strategaeth ar waith i atal a lleihau trais difrifol. Felly, credwn nad oes angen dyletswydd benodol mewn perthynas â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol.

Mae asesiadau anghenion yn hanfodol i lywio penderfyniadau ar sut i gomisiynu gwasanaethau lleol, a dyna pam mae'r rhain yn rhan annatod o'r prosesau comisiynu presennol. Gallai gofyn am asesiadau anghenion strategol ar y cyd ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr troseddau arwain at weithgarwch dyblyg, ac er y bydd y ddyletswydd i gydweithio yn caniatáu hyblygrwydd i gynnal y rhain os oes angen, nid ydym yn ystyried bod angen gofynion penodol.

Tra bod y Llywodraeth yn cydnabod bod y cyllid ar gyfer darparu gwasanaethau yn hanfodol, mae hyn yn cael sylw y tu allan i'r ddeddfwriaeth. Yn ddiweddar mae'r Llywodraeth wedi cynyddu cyllid aml-flwyddyn ar gyfer gwasanaethau dioddefwyr a

---

<sup>1</sup> Mae gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol sy'n cael eu harwain, eu dylunio a'u darparu gan ac ar gyfer defnyddwyr a'r cymunedau y maent yn bwriadu eu gwasanaethu (er enghraifft goroeswyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, dioddefwyr Byddar ac anabl a dioddefwyr LHDT+).

ariennir gan CSP, sy'n cynnwys cymorth cam-drin domestig, i isafswm o £460 miliwn dros y tair blynedd nesaf (22/23 i 24/25 yn gynwysedig), a bydd cyllid GIG Lloegr ar gyfer cam-drin rhywiol a domestig yn cynyddu gydag £20 miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf, i fyny o £42 miliwn yn 2021/22.

Nod Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yw hybu cydweithredu pellach drwy sefydlu bwrdd goruchwylio traws-lywodraethol, dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Dioddefwyr. Bydd hyn yn dod ag adrannau a rhanddeiliaid allweddol ynghyd, gan gynnwys comisiynwyr a chynrychiolwyr y sector cymorth lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau her a chydymffurfiad â'r Strategaeth hon.

### **Argymhelliad 3: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Iechyd, gan weithio'n agos â'r sector cam-drin domestig arbenigol a chyrrff proffesiynol perthnasol, ddatblygu cynlluniau i fynd i'r afael â'r prinder cwnsela arbenigol a chymorth therapiwtig sydd ar gael i ddiodefwyr a goroeswyr, gan gynnwys plant.**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) drwy GIG Lloegr yn buddsoddi o leiaf £2.3 biliwn o gyllid ychwanegol y flwyddyn erbyn 2023-24 fel y bydd dwy filiwn yn fwy o bobl yn gallu cael cymorth iechyd meddwl. Roedd DHSC trwy GIG Lloegr hefyd wedi darparu £500 miliwn ychwanegol ar gyfer 2021/22. Roedd hyn yn cynnwys £110 miliwn i ehangu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gweithredu'r fframwaith iechyd meddwl cymunedol, buddsoddi mewn gwasanaethau argyfwng a pharhau i ddarparu llinellau cymorth iechyd meddwl brys 24/7, yn ogystal â buddsoddiad ychwanegol mewn rhaglenni atal hunanladdiad

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a thystion i £192 miliwn y flwyddyn erbyn 24/25. Rydym wedi ymrwymo £154 miliwn o'r gyllideb hon bob blwyddyn ar sail aml-flwyddyn, a fydd yn caniatáu i wasanaethau cymorth i ddiodefwyr, a'r rhai sy'n eu comisiynu, i feithrin gwydnwch mewn gwasanaethau gan sicrhau cysondeb yn y cymorth y mae diodefwyr yn ei gael a bydd yn sicrhau bod cymorth o ansawdd uchel ar gael i ddiodefwyr pan fo angen. Gan gydnabod pa mor hanfodol yw cymorth wedi'i deilwra i ddiodefwyr cam-drin domestig, rydym yn darparu cyllid wedi'i glustnodi, a ddarperir drwy Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr cam-drin domestig lleol, gan gynnwys cwnsela a chymorth therapiwtig, a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs).

Bydd y Llywodraeth yn parhau i ymgysylltu â'r sector a monitro'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar gyfer diodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig gyda'r cyllid hwn, er mwyn ystyried a oes angen datblygu cynlluniau pellach.

### **Argymhelliad 5: Dylai'r Adran Addysg, gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, gymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg cymorth arbenigol sydd ar gael i blant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig.**

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod yn llawn yr effaith ddinistriol y gall cam-drin domestig ei chael ar blant a phobl ifanc. Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 yn cydnabod plant sy'n gweld, clywed, neu'n profi effeithiau cam-drin domestig, ac sy'n perthyn i'r sawl sy'n cyflawni'r drosedd neu'r diodefwyr, fel diodefwyr cam-drin domestig yn eu rhinwedd eu hunain am y tro cyntaf.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi mynd ati i gymryd camau i sicrhau bod cymorth arbenigol ar gael i blant sy'n cael eu heffeithio gan gam-drin domestig. Fel y cyhoeddwyd yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, rydym wedi cynyddu cyllid ar gyfer Cronfa Cam-drin Domestig (CADA) y Plant sy'n cael eu heffeithio gan Domestic Abuse ac wedi dyrannu hyd

at £10.3 miliwn dros dair blynedd i sefydliadau sy'n darparu cymorth arbenigol i blant ledled Cymru a Lloegr. Bydd yr ymyriadau a ddarperir trwy'r cynllun hwn yn cynnwys cymorth uniongyrchol i blant a theuluoedd, cyflawni gwaith ataliol ac ymgysylltu â sefydliadau 'gan ac ar gyfer'. Mae hyn yn adeiladu ar y mwy na £12 miliwn a ddarparwyd drwy Gronfa CADA ers 2018. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r rhaglenni hefyd yn cael ei gynnal i asesu eu heffeithiolrwydd a chynyddu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi buddsoddi yng nghynllun Operation Encompass, sy'n galluogi rhannu gwybodaeth rhwng yr heddlu ac ysgolion mewn achosion lle mae plentyn oedran ysgol wedi profi cam-drin domestig. Rydym yn ariannu Llinell Gymorth Athrawon genedlaethol ar hyn o bryd ar gyfer staff mewn lleoliadau addysg i geisio arweiniad ar gefnogi disgyblion y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn dilyn hysbysiad gan Operation Encompass.

Fel y nodir yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, er mwyn cryfhau'r ymateb diogelu ar gyfer plant sydd wedi profi cam-drin domestig, dyrannwyd cyllid i'r Swyddfa Gartref drwy Gronfa Canlyniadau a Rennir Trysorlys EF i adolygu ymateb cenedlaethol yr heddlu i blant sy'n profi cam-drin domestig, gwerthuso'r cynllun cyfredol Operation Encompass a threialu ymestyn y model i leoliadau blynyddoedd cynnar.

Mae cyllid yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) a ddsbarthwyd i awdurdodau lleol ar gyfer darparu cymorth mewn llety diogel o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn cynnwys cymorth i blant yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig mewn llety diogel. Hyd yn hyn, rydym wedi dyrannu £250 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau ym mhob un o 2021/22 a 2022/23 ac wedi cyhoeddi £257 miliwn pellach ar draws y ddwy flynedd nesaf.

Dylai comisiynwyr lleol eisoes fod yn ystyried darpariaeth arbenigol wedi'i theilwra ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr cam-drin domestig wrth gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Mae'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol a Phecyn Cymorth Comisiynu VAWG a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022 yn rhoi canllawiau i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth effeithiol i bob dioddefwr, gan gynnwys plant. Mae'r Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022 hefyd yn darparu rhagor o wybodaeth am blant fel dioddefwyr, gan gynnwys am yr ymateb a'r mesurau ymyrraeth gynnar mewn lleoliadau addysg ac iechyd. Byddwn yn parhau i weithio ar y cyd â chomisiynwyr lleol i ddeall a rhannu arferion gorau i wella'r gefnogaeth hon.

Mae ymateb aml-asiantaeth cryf i gam-drin domestig yn hanfodol. Mae'r Adran Addysg wedi darparu cyllid i a chomisiynu'r What Works for Early Intervention and Children's Social Care (WWEICSC) i gryfhau ein dealltwriaeth o arferion lleol effeithiol i gefnogi plant a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig. Maent yn gweithio gyda phedwar gwasanaeth cam-drin domestig lleol i wella ein dealltwriaeth o'r cyd-destun aml-asiantaeth y mae'r gwasanaethau hyn yn gweithredu ynddo ac i ba raddau y mae gwasanaethau'n diwallu anghenion plant a theuluoedd. Bydd y gwaith yn archwilio dichonoldeb ar gyfer gwerthuso effaith ac unrhyw rwystrau i hyn.

Mae rhaglen Cryfhau Teuluoedd, Amddiffyn Plant (SFPC) gwerth £84 miliwn yr Adran Addysg (2019-2024) yn cefnogi pum awdurdod lleol i fabwysiadu model Diogelu Teulu Swydd Hertford. Mae Diogelu Teuluoedd yn ddull arloesol o ymdrin â gofal cymdeithasol plant, sy'n canolbwyntio ar gefnogi teuluoedd sy'n wynebu heriau cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a/neu salwch meddwl. Mae gwerthusiadau cynnar o'r model yn

dangos ei fod yn lleihau'n ddiogel nifer y plant sy'n mynd i ofal a/neu sydd angen gwasanaethau statudol.<sup>2</sup>

Mae Diogelu Teuluoedd yn cynnwys timau amlddisgyblaethol o weithwyr arbenigol oedolion sy'n helpu i fynd i'r afael ag anghenion y teulu cyfan. Mae'r timau hyn yn cynnwys gweithwyr Goroewyr Cam-drin Domestig, gweithwyr Cyflawnwyr Cam-drin Domestig a gweithwyr Iechyd Meddwl, sydd i gyd yn gweithio gyda theuluoedd mewn ffordd sy'n seiliedig ar gryfderau i adeiladu cynllun cynaliadwy ar gyfer newid. Mae gweithwyr proffesiynol Diogelu Teuluoedd yn gweithio gyda'i gilydd i rannu eu harbenigedd, i gefnogi gwneud penderfyniadau mewn perthynas â lles plant, a chynghori ar driniaeth neu gynlluniau gofal i rieni'r plant.

Mae'r modelau Cryfhau Teuluoedd, gan gynnwys Diogelu Teuluol, yn cael eu gwerthuso gan What Works for Early Intervention and Children's Social Care (WWEICSC). Disgwylir adroddiadau gwerthuso terfynol yn 2026.

---

<sup>2</sup> Hertfordshire Family Safeguarding ([publishing.service.gov.uk](https://publishing.service.gov.uk))

## **Monitro galw (Argymhelliad 2, 4 a 6)**

**Argymhelliad 2: O ystyried cyfyngiadau'r dystiolaeth bresennol, dylai'r Llywodraeth, gan gynnwys Trysorlys Ei Fawrhydi, ddatblygu'r dystiolaeth a'r data angenrheidiol i alluogi dadansoddiad cost a budd o ddarparu cymorth i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, gan gynnwys plant.**

Mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr argymhelliad hwn yn ofalus ac yn hapus i drafod canfyddiadau'r Comisiynydd Cam-drin Domestig gyda hi mewn mwy o fanylder ynglŷn â bylchau tystiolaeth posib.

Mae'r Llywodraeth wedi cymryd camau i wella'r sylfaen dystiolaeth ar wasanaethau cymorth i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Fel y nodir uchod, mae'r Swyddfa Gartref wedi cynyddu cyllid ar gyfer Cronfa CADA ac wedi dyrannu hyd at £10.3 miliwn dros dair blynedd i sefydliadau sy'n darparu cymorth arbenigol i blant ledled Cymru a Lloegr. Bydd gwerthusiad annibynnol o'r rhaglenni hefyd yn cael ei gynnal i asesu eu heffeithiolrwydd a chynyddu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt.

**Argymhelliad 4: Dylai'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gynnwys yr effaith ar wasanaethau yn y gymuned yn eu gwerthusiad o Ran 4 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig.**

Bydd yr effaith ar wasanaethau yn y gymuned yn cael ei gynnwys yn ein gwerthusiad o Ran 4 o'r Ddeddf Cam-drin Domestig.

**Argymhelliad 6: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder chwarae rhan gryfach wrth fonitro'r galw ar wasanaethau yn genedlaethol, er mwyn asesu llwyddiant y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr a'r Cynllun Cam-drin Domestig.**

Mae'n bwysig bod y Llywodraeth yn monitro'r galw ar wasanaethau cymorth, ar lefel genedlaethol a lleol. Fel rhan o'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, sefydlwyd set graidd o fetrigau a chanlyniadau yr ydym yn annog pob comisiynydd sy'n cael cyllid gan y Llywodraeth i'w casglu o'u gwasanaethau a gomisiynir; bydd hyn yn cynnwys grantiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas ag ymrwymadau'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig. Mae'r metrigau hyn yn cynnwys data atgyfeiriadau craidd, sydd eisoes yn ofynnol gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, fel y gallwn barhau i fonitro faint o ddiodefwyr sy'n cael eu cefnogi, a lle mae'r galw am wasanaethau ar gynnydd.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda chomisiynwyr lleol i sicrhau ein bod yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am y galw am wasanaethau ar lefel leol a byddwn yn gweithio gydag Adrannau eraill y Llywodraeth i sicrhau bod y metrigau a'r canlyniadau hyn yn cael eu hymgorffori mewn gwasanaethau a gomisiynir. Byddwn hefyd yn sefydlu grŵp goruchwyllo Gweinidogion i oruchwyllo gweithredu'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, gan gynnwys monitro'r data a gawn ac effaith y galw ar wasanaethau cenedlaethol a lleol. Bydd hyn yn dod ag adrannau a rhanddeiliaid allweddol ynghyd, gan gynnwys comisiynwyr a chynrychiolwyr y sector cymorth.

## Ymyriadau Cyflawnwyr (Argymhelliad 7)

### **Argymhelliad 7: Dylid cynyddu'r cyllid ar gyfer ymyriadau newid ymddygiad ar gyfer y rhai sy'n cyflawni cam-drin domestig.**

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi bod yn buddsoddi mewn cynyddu argaeledd ymyriadau ar gyfer cyflawnwyr cam-drin domestig, gan gynnwys newid ymddygiad a rhaglenni stelcian, ac ehangu prosiectau fel Drive. Roedd ein buddsoddiad cychwynnol ar gyfer ymyriadau ychydig dros £7m a dyma'r tro cyntaf i gronfa bwrpasol fod wedi'i sefydlu ar gyfer gwaith o'r math hwn.

Mae tystiolaeth addawol i awgrymu y gall gwaith gyda chyflawnwyr wneud gwahaniaeth o ran lleihau amllder neu ddifrifoldeb y cam-drin. Gwyddom hefyd fod buddsoddiad parhaus yn y maes hwn mor bwysig i wella ein dealltwriaeth o sut i atal unigolion rhag aildroseddu. Yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig rydym wedi ymrwymo i £75m dros dair blynedd a fydd yn helpu i ariannu ymyriadau, gwerthusiadau ac ymchwil pellach i gyflawnwyr. O hyn, yn ddiweddar lanswyd cronfa ymyrryd newydd i droseddwr gennym gyda chyfanswm cyllideb o £36,290,000 dros ddwy flynedd.

Rydym yn cytuno'n llwyr yr eir i'r afael yn uniongyrchol ag ymddygiad camdriniol mewn ffordd sy'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelwch y rhai y maent yn eu cam-drin a'u plant. Dyna pam, ar y cyd â Phrifysgol Durham, y gwnaethom ddatblygu set o safonau sy'n nodi ein disgwyliadau sylfaenol o ran ansawdd ar gyfer ymyriadau cyflawnwyr. Bydd Safonau'r Llywodraeth yn arf canllaw defnyddiol i'r rhai sy'n comisiynu'r gwasanaethau hyn. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Chomisiynwyr Troseddau'r Heddlu i hyrwyddo'r defnydd o'r Safonau wrth gomisiynu ymyriadau cyflawnwyr.

Rydym hefyd yn ystyried ble y gall ein dull o adnabod ac ymateb i'r drwgweithredwyr mwyaf peryglus gael eu cryfhau. Yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig rydym yn nodi ein bwriad i ystyried opsiynau cadarn ar gyfer gwella'r rheolaeth ar yr unigolion hyn er mwyn lleihau'r risg y maent yn ei achosi. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i opsiynau ar gyfer "cofrestr" cam-drin domestig ac archwilio sut y gall y defnydd arloesol o dechnoleg helpu i dargedu'r cyflawnwyr mwyaf niweidiol.

## Cyllid (Argymhelliad 8)

**Argymhelliad 8: Yn unol â'r ymrwymiad a wnaed yn y Cynllun Cam-drin Domestig, dylai'r Llywodraeth nodi sut y bydd yn defnyddio canlyniadau'r ymarfer mapio hwn i nodi bylchau a thargeddu cyllid yn well i wasanaethau lleol.**

Amlygodd y Cais am Dystiolaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG), a lywiodd y Strategaeth Mynd i'r Afael â VAWG (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2021) a'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022), pa mor bwysig yw cymorth wedi'i deilwra i ddiodefswyr. Roedd galwadau clir am well darpariaeth 'gan ac ar gyfer' wedi'i llywio gan drawma ac i gymorth gael ei deilwra i fathau penodol o VAWG (er enghraifft Anffurfio Organau Cenhedlu Benywaidd), neu grwpiau penodol o ddiodefswyr a goroeswyr (gan gynnwys y rhai sydd â rhwystrau ychwanegol i gael mynediad at wasanaethau) i sicrhau eu bod yn gallu cael mynediad at gymorth priodol ac effeithiol.

Mae canfyddiadau ymarfer mapio'r Comisiynydd Cam-drin Domestig wedi amlygu ymhellach fylchau yn y gwasanaeth a ddarperir, yn enwedig ar gyfer cymorth arbenigol a 'gan ac ar gyfer'. Roedd canfyddiadau cynnar y Comisiynydd o'r ymarfer mapio, ochr yn ochr â'r Cais VAWG am Dystiolaeth, yn sail i gynllun Cronfa Gwasanaethau Arbenigol a Chymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched 2023-25 y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a lansiwyd ym mis Tachwedd 2022. Bydd y Gronfa yn dyrannu dros £8.4 miliwn i 'gan ac at gyfer' gwasanaethau arbenigol dros ddwy flynedd, y mae'r mwyafrif ohono (hyd at £6 miliwn) wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' yn unig.

Diben y gronfa yw meithrin capasiti a gallu mewn gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' i gefnogi diodefswyr a goroeswyr VAWG yn well, gan gynnwys trwy fuddsoddi mewn partneriaethau a gwella cyrhaeddiad daearyddol 'gan ac ar gyfer' a gwasanaethau arbenigol.

Gwahoddodd y Gronfa geisiadau gan y sector gwirfoddol a chymunedol, ar draws sefydliadau mwy a llai, ac yn benodol anogodd geisiadau consortiwm i alluogi sefydliadau llai i gael mynediad at gyllid lle na fyddent yn gymwys fel arall.

Byddwn yn parhau i ystyried yn ofalus ganfyddiadau'r ymarfer mapio wrth ddyrannu cyllid grant, ac wrth gomisiynu yn y dyfodol gyda'r bwriad o dargeddu cyllid yn well ar gyfer gwasanaethau lleol.

Er mwyn caniatáu i wasanaethau cymorth i ddiodefswyr, a'r rhai sy'n eu comisiynu, feithrin gwydnwch mewn gwasanaethau, gan sicrhau cysondeb yn y cymorth y mae diodefswyr yn ei dderbyn, a bod cymorth o ansawdd uchel ar gael i ddiodefswyr pan fo angen, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynyddu'r cyllid i wasanaethau cymorth ar gyfer diodefswyr a thystion i £192 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25. Rydym wedi ymrwymo £154 miliwn o'r gyllideb hon y flwyddyn ar sail aml-flwyddyn ar gyfer y tair blynedd nesaf (2022/23 i 2024/25 yn gynwysedig). Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd i gomisiynu gwasanaethau cefnogi diodefswyr lleol. Byddwn yn ystyried, gyda chomisiynwyr lleol, sut i wneud y defnydd gorau o ganlyniadau ymarfer mapio'r DAC i dargeddu cyllid yn y dyfodol at wasanaethau lleol a byddwn hefyd yn ystyried sut rydym yn mynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd wrth ddyrannu cyllid yn y dyfodol.

## Cyllid (Argymhellion 9 ac 11)

**Argymhelliad 9: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar y cyd â'r Swyddfa Gartref a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, sefydlu cronfa £263m dros 3 blynedd i gefnogi gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol.**

**Argymhelliad 11: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref ar y cyd ariannu rhaglen benodol o feithrin gallu i helpu meithrin partneriaethau rhwng gwasanaethau y tu allan i'r gwasanaeth a gwasanaethau arbenigol gan ac ar gyfer gwasanaethau lleol.**

Mae'r argymhellion hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel y maent yn ymwneud ag ariannu 'gan ac ar gyfer' gwasanaethau cymorth arbenigol.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r Llywodraeth yn buddsoddi mewn gwasanaethau i ddiodefwyr, gan gynnwys gwasanaethau arbenigol a 'gan ac ar gyfer'. Mae cyllid i ddiodefwyr a thystion yn cynyddu. Mae dros £140 miliwn yn cael ei fuddsoddi i gefnogi diodefwyr a goroeswyr drwy'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, gan gynnwys Cronfa SSS VAWG, sy'n darparu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau arbenigol ac 'gan ac ar gyfer'.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo i sicrhau bod diodefwyr a goroeswyr yn cael gwasanaethau cymorth o ansawdd uwch. Fel y nodwyd yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, fel cydnabyddiaeth o ba mor bwysig yw gwasanaethau cefnogi, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn neilltuo £47.1 miliwn dros dair blynedd ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned sy'n cefnogi diodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn darparu £81 miliwn i Gynghorwyr Trais Domestig Annibynnol a Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol. Bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig dyfarniadau cyllid aml-flwyddyn i sefydliadau sy'n cefnogi diodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Yn ogystal, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi ymrwmo i gynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth i ddiodefwyr a thystion i £192 miliwn y flwyddyn erbyn 2024/25.

Mae'r Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig yn nodi pecyn ariannu aml-flwyddyn i ddarparu, ymhlith pethau eraill, gwasanaethau cymorth yn y gymuned. Mae hyn i gydnabod y sefydlogrwydd ychwanegol; sicrwydd darpariaeth a chysondeb gwasanaeth gall grantiau aml-flwyddyn ddarparu: Gyda'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cynnig gwobrau aml-flwyddyn i sefydliadau sy'n cefnogi diodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol i wneud hynny.

Mae'r Llywodraeth yn cydnabod gwerth 'gan ac ar gyfer' a gwasanaethau arbenigol wrth ddarparu cymorth wedi'i deilwra i'r rhai â nodweddion gwarchoddedig a'r rhai sy'n profi'r lefelau uchaf o allgáu o wasanaethau prif ffrwd.

Mae Cronfa SSS VAWG yn annog ceisiadau gan bartneriaethau a chonsortia i helpu i ddsbarthu cyllid ymhellach i sefydliadau arbenigol llai a sefydliadau 'gan ac ar gyfer'.

Y Strategaeth Ariannu Diodefwyr traws-lywodraethol sy'n ceisio mynd i'r afael â rhwystrau i gyllid cynaliadwy ac ysgogi comisiynu cyson, fel bod diodefwyr yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Ail-gadarnhaodd y Strategaeth yr egwyddor o gyllid aml-flwyddyn ar draws y llywodraeth er mwyn sicrhau bod gan wasanaethau sefydlogrwydd ac y gallant fuddsoddi mewn meithrin gallu i gefnogi diodefwyr yn effeithiol. Mae'r Strategaeth hefyd yn cyflwyno safonau comisiynu cenedlaethol a metrigau a chanlyniadau



craidd, er mwyn sicrhau bod y Llywodraeth yn gallu mesur effaith cyllid a chomisiynu fel bod dioddefwyr yn gallu cael mynediad at gymorth o ansawdd uchel pan fydd ei angen arnynt.

I gefnogi dioddefwyr trosedd, a'u teuluoedd, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd, sydd yn comisiynu gwasanaethau cymorth lleol, ymarferol, emosiynol a therapiwtig i ddioddefwyr pob math o drosedd yn ôl anghenion lleol - mae hyn yn cynnwys trwy wasanaethau 'gan ac ar gyfer'.

Mae cyllid yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a ddosberthir i awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 i gomisiynu cymorth o fewn yr un llety i ddioddefwyr cam-drin domestig a'u plant. Mae hyn yn cynnwys comisiynu gwasanaethau arbenigol 'gan ac ar gyfer'. Hyd yn hyn, rydym wedi dyrannu £250 miliwn i awdurdodau lleol ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau ac rydym wedi cyhoeddi £257 miliwn pellach dros y ddwy flynedd nesaf.

Er na all y Llywodraeth ymrwymo i sefydlu cronfa newydd, ychwanegol, bydd y Swyddfa Gartref, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn parhau i gydweithio er mwyn deall gallu gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' mewn llety diogel ac mewn cefnogaeth yn y gymuned. Bydd hyn yn galluogi'r Llywodraeth i ddeall yr angen a llunio ateb tymor hir cynaliadwy.

## **Hyfforddiant Sector Cyhoeddus (Argymhellion 10 ac 20)**

**Argymhelliad 10:** Dylai'r Swyddfa Gartref, gan gydgysylltu ar draws y Llywodraeth (yn enwedig gyda'r Adran Addysg, Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, a'r Adran Gwaith a Phensiynau) ddatblygu strategaeth ar gyfer gwella dealltwriaeth o anghenion croestoriadol dioddefwyr a goroeswyr ar gyfer staff rheng flaen y sector cyhoeddus.

**Argymhelliad 20:** Dylai Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig weithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddatblygu fframwaith cytûn ar gyfer asesu anghenion hyfforddi cyrff y sector cyhoeddus o ran cam-drin domestig, a dylai Adrannau'r Llywodraeth gynnal asesiad o anghenion hyfforddi proffesiynau â blaenoriaeth fel yn yr adroddiad mapio hwn.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u grwpio gyda'i gilydd fel y maent yn ymwneud â hyfforddi staff y sector cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn derbyn yr argymhellion uchod yn rhannol.

Er nad ydym yn cytuno bod angen strategaeth neu fframwaith penodol, mae nifer o raglenni byw gwahanol wedi'u hanelu at wella gallu'r sector cyhoeddus wrth ddod ar draws dioddefwyr cam-drin domestig.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i sefydlu ymyriadau effeithiol i nodi cam-drin domestig a chyfeirio dioddefwyr at gefnogaeth briodol, fel y nodir yn ein Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig. O fewn y Cynllun rydym yn dadlau'r achos dros ddull gweithredu'r Llywodraeth gyfan a chymdeithas gyfan, gyda gwahanol weithwyr proffesiynol ac asiantaethau'n cydweithio i fynd i'r afael â cham-drin domestig yn effeithiol. Mae pwysigrwydd mabwysiadu ymateb cydgysylltiedig hefyd wedi'i nodi yn y Datganiad o Ddisgwyliadau Cenedlaethol a'r Pecyn Cymorth Comisiynu VAWG sy'n cyd-fynd ag ef.

Mae Uned Priodasau dan Orfod y Llywodraeth yn cyflwyno gweithdai hyfforddi misol ar briodas dan orfod (sydd fel arfer yn dod o fewn y diffiniad o gam-drin domestig) i swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, yn ogystal â chyflwyniadau pwrpasol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd proffesiynol ar gais. Yn 2022, derbyniodd 1,537 o weithwyr proffesiynol hyfforddiant o'r fath. Mae'r uned hefyd yn darparu cwrs e-ddysgu am ddim ar briodas dan orfod, ar gyfer ystod o weithwyr proffesiynol.

### **Engbreiffiau o hyfforddiant a mentrau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen**

#### **Gofal Iechyd**

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi hyd at £7.5 miliwn mewn ymyriadau cam-drin domestig mewn lleoliadau gofal iechyd dros dair blynedd, gan gynnwys uwchsgilio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau y gallant adnabod a chyfeirio dioddefwyr yn effeithiol at systemau cefnogi.

#### **Addysg**

Mae ymateb aml-asiantaeth cryf i gam-drin domestig yn hanfodol. Ar hyn o bryd mae'r Adran Addysg yn ystyried y ffordd orau o gefnogi anghenion plant a theuluoedd sy'n profi cam-drin domestig ac wedi ariannu'r What Works for Early Intervention and Children's Social Care (WWEICSC) i helpu i nodi arferion lleol effeithiol. Fel y nodir uchod, mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi buddsoddi yng nghynllun Operation Encompass ac ar hyn o bryd mae'n ariannu Llinell Gymorth Genedlaethol i Athrawon ar gyfer staff mewn lleoliadau

addysg i geisio arweiniad ynghylch cefnogi disgyblion y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt yn dilyn hysbysiad gan Operation Encompass. Trwy'r Gronfa Beth Sy'n Gweithio i Atal VAWG, mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi dyfarnu cyllid i Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr dros gyfnod o dair blynedd i addysgu a hysbysu plant a phobl ifanc am drais yn erbyn menywod a merched a chanlyniadau cam-drin ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith ymarferwyr.

### Plismona

Mae'r Coleg Plismona wedi datblygu amrywiaeth o gynhyrchion hyfforddi, gan gynnwys y rhaglen Materion Cam-drin Domestig, er mwyn gwella ymateb yr heddlu i gam-drin domestig a sicrhau cysondeb cenedlaethol yn y gwasanaeth mae heddluoedd yn ei ddarparu. Yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig fe wnaethom ymrwymo hyd at £3.3 miliwn i ddiweddarau'r hyfforddiant a chefnogi'r broses gyflwyno i heddluoedd nad ydynt eto wedi ymgymryd ag ef. Rydym hefyd yn rhoi cyllid i ddatblygu modiwl newydd o'r hyfforddiant wedi'i dargedu at swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau cam-drin domestig er mwyn galluogi gwelliant pellach.

### Cyflogwyr

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wneud cam-drin domestig yn fusnes i bawb, gan gynnwys cyflogwyr. Dyna pam mae ein hymrwymiaadau yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig yn cynnwys galw ar fwy o sefydliadau a chyflogwyr i ddilyn eu hesiampl ac ymuno â Menter Cyflogwyr ar Gam-drin Domestig (EIDA) ac arwyddo Cyfamod Cam-drin Domestig Cyflogwyr (EDAC), gan barhau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ac ysgogi arfer gorau ymhlith cyflogwyr - mae hyn yn cynnwys adrannau'r Llywodraeth a chyreff sector cyhoeddus. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn dilyn statws Beacon fel aelodau o EIDA.

Mae'r Gwasanaeth Cynhaliath Plant (CMS) hefyd wedi cryfhau yn sylweddol ei weithdrefnau a'i gymorth i gwsmeriaid sy'n dioddef cam-drin domestig . Gyda mewnbwn gan Cymorth i Ferched, mae rhaglen o hyfforddiant cam-drin domestig wedi'i chynllunio a'i chyflwyno i weithwyr achos CMS. Mae'r hyfforddiant hwn ar ffurf:

- Gall cydnabod cam-drin domestig fod ar sawl ffurf gan gynnwys cam-drin corfforol, seicolegol, emosiynol ac ariannol
- Cyfeirio priodol at grwpiau cymorth cam-drin domestig
- Cyngor ar gysylltu â'r heddlu os oes angen ac, os nad yw cwsmeriaid yn teimlo y gallant wneud hyn, yna gofyn a oedd cwsmeriaid yn fodlon i'r Gwasanaeth Cynhaliath Plant ffonio'r heddlu ar eu rhan.

Mae gan y CMS hefyd Becyn Cymorth Anghenion Cymhleth ar gyfer ei weithwyr achos, sy'n cynnwys camau clir i'w dilyn er mwyn cefnogi cwsmeriaid sy'n cael eu cam-drin. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cael ei adolygu a'i gryfhau'n rheolaidd ar sail mewnwleidiad cwsmeriaid.

Bydd yr CMS yn parhau i werthuso effeithiolrwydd ei ganllawiau a hyfforddiant mewn perthynas â cham-drin domestig.

### Tai Cymdeithasol

Mae DLUHC wedi cwblhau ei adolygiad o hyfforddiant proffesiynol a chymwysterau ar gyfer staff tai cymdeithasol sydd wedi ei arwain i gymryd pŵer i gyfarwyddo'r Rheoleiddiwr

Tai Cymdeithasol (RSH) i osod safon ar gymhwysedd ac ymddygiad. Bydd manylion pellach yn cael eu nodi yng Nghyfeiriad yr Ysgrifennydd Gwladol i'r RSH. Bydd y Cyfarwyddyd yn adlewyrchu'r angen i sicrhau bod staff yn barod i gefnogi tenantiaid bregus, gan gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig.

### Mewnfudiad

Fel rhan o ymrwymiad yr Orfodaeth Mewnfudo i amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, mae'n orfodol i bob aelod o staff gwblhau'r Hyfforddiant Sylfaenol ar Fregusrwydd sy'n grymuso staff i nodi ystod eang o faterion sy'n effeithio ar oedolion a phlant sy'n agored i niwed. Mae'r hyfforddiant yn cwmpasu amrywiaeth o ddangosyddion i nodi unigolyn sy'n agored i niwed, gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr trosedd, ac mae'n uwchsgilio staff i gymryd camau i ddiogelu a lleihau'r risg i'r unigolyn. Mae mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a defnyddio chwilfrydedd proffesiynol yn llinyn allweddol i'r cynnwys.

Bydd y cynnwys hyfforddiant yn cael ei adolygu'n gynnar yn 2023 a bydd sesiynau gloywi yn cael eu lansio ar gyfer yr holl staff presennol a newydd yn ystod 2023 i gynnal yr ymwybyddiaeth hon ac ehangu gwybodaeth.

O fewn ymateb y Swyddfa Gartref i uwch-gŵyn yr heddlu ar ddiodefwyr mudol sydd â statws ansicr, ymrwymodd yr adran i gyflwyno Protocol Dioddefwr Mudol ar gyfer diodefwyr troseddau mudol sydd wedi cael eu cyfeirio at Orfodi Mewnfudo gan yr heddlu. Fel rhan o'r gwaith hwn bydd yr adran yn sicrhau bod staff yn cael yr offer a'r mecanweithiau cywir i ymateb yn effeithiol i ddiodefwyr troseddau mudol, gan gynnwys trwy ganllawiau a phecyn hyfforddi wedi'i deilwra.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi arwain gwaith i sefydlu practis wedi'i lywio gan drawma ar gyfer staff Lloches ac amddiffyn. Mae hyn i'w ddefnyddio ar ddau bwynt allweddol: y cyfarfod cychwynnol a'r cyfweliad lloches (o'r cyfweliad sgrinio i benderfyniad lloches).

Y nod yn y pen draw yw mabwysiadu dull sy'n cydnabod pa mor gyffredin yw trawma ymysg ceiswyr lloches, yn cydnabod yr effaith y mae hyn yn ei gael ar geiswyr lloches, yn mynd i'r afael â'r rhwystrau y gall y rhai yr effeithir arnynt gan drawma eu profi ac yn ceisio osgoi ail drawma trwy wreiddio arferion sy'n hyblyg.

Fe wnaethant hefyd ddatblygu rhestr wirio Cam-drin Domestig gyda phartneriaid trydydd sector dros flwyddyn yn ôl i gynorthwyo ymatebwyr cyntaf i gefnogi diodefwyr. Yn y rhestr wirio hon fe'i gwnaed yn glir y dylai cymorth gael ei arwain gan ddiodefwyr. Mae Lloches ac amddiffyn hefyd yn cynnal fforwm Rhanddeiliaid Cam-drin Domestig chwarterol gyda phartneriaid.

Yn ogystal, mae Grŵp Ymfudo'r a Ffiniau'r Swyddfa Gartref yn goruchwylio gwaith parhaus ar lefel strategaeth a chynllun system i archwilio'r dull a ddefnyddir ar draws y system, gan gynnwys ar gyfer diodefwyr agored i niwed. Mae'r archwiliad hwn yn cynnwys meysydd o gysondeb a gwahaniaethu ac mae'n cynnwys cydnabyddiaeth benodol, er enghraifft, menywod sy'n ddiodefwyr masnachu mewn pobl.

### Staff y Ganolfan Byd Gwaith

Mae gan staff Canolfan Byd Gwaith y DWP/staff rheng flaen hyfforddiant cam-drin domestig i gefnogi cwsmeriaid sy'n profi cam-drin domestig. Mae hyfforddiant Credyd Cynhwysol (UC) yn cynnwys pethau fel canfod ac ymateb i arwyddion anghenion cymhleth trwy gyfeirio, cofnodi nodiadau a datgelu rhagweithiol lle mae risg o niwed.

Yn ystod hyfforddiant mae pob asiant yn cael gwybod am gam-drin domestig a'r gefnogaeth maen nhw'n gallu ei ddarparu i ddiodefwrwr sy'n nodi eu hunain.

Ar lefel leol, mae gan ganolfannau gwaith gysylltiadau a chytundebau lleol gyda rhwydwaith o elusennau yr ydym yn gweithio mewn partneriaeth â nhw i ddarparu cymorth i ddiodefwrwr cam-drin domestig. Mae gan bob safle offeryn ddarpariaeth Ardal i alluogi cydweithwyr i gefnogi hawlwrwr gydag anghenion cymhleth.

Ar hyn o bryd mae Anghenion Cymhleth wedi'u cynnwys o fewn Hyfforddiant Credyd Cynhwysol ac mae hyn yn cynnwys 'Hawlwrwr sy'n profi niwed neu gamdriniaeth'. Mae yna gyfarwyddiadau traws-lywodraethol ar gyfer darparu cefnogaeth uwch i gwsmeriaid.

Ar hyn o bryd mae'r DWP yn blaenoriaethu ail-lansio Arweinwyr Materion Pwnc, mae hyn yn cynnwys Arweinwyr Pwnc Cam-drin Domestig (SPOCs) ar draws yr holl ganolfannau gwaith - gan eu cefnogi i gyflawni ymrwymadau polisi Cam-drin Domestig yr Adran Gwaith a Phensiynau. Fel rhan o'r agenda hwn, byddwn yn ceisio sicrhau dysgu effeithiol sy'n cyd-fynd â'n Dull Gwybodus o Drawma newydd sy'n alinio/cefnogi ac yn ategu'r hyfforddiant peilot Ask for ANI.

Ar hyn o bryd mae canllawiau'r DWP a'r Credyd Cynhwysol yn esbonio'r gwahanol fathau o gam-drin domestig a sut rydym yn cefnogi'r rhai mewn angen trwy wasanaethau wedi'u teilwra, hawddfreintiau, cymhwyso polisi perthnasol (megis y Polisi Dau Gartref, hawddfreintiau, ac ati). Mae yna hefyd ysgogiad/ffocws ar arwyddion effeithiol a llwybrau galw cynyddol weladwy/effeithiol lle mae risg o niwed wedi'i nodi.

## **Dioddefwyr a goroeswyr sy'n wynebu anfantais luosog (Argymhellion 12, 13 a 14)**

**Argymhelliad 12: Dylai'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau gynnal dadansoddiad o anghenion y ddarpariaeth o wasanaethau seiliedig ar lety i ddioddefwyr a goroeswyr sydd ag anfanteision lluosog. Dylid defnyddio hwn i sefydlu rhaglen wedi'i hariannu o feithrin capasiti a gallu, gan ddefnyddio enghreifftiau o arfer gorau sydd eisoes ar waith.**

Mae DLUHC eisoes yn casglu data i alluogi dadansoddiad o anghenion dioddefwyr a goroeswyr a allai wynebu anfanteision lluosog a bydd yn rhannu arfer gorau o'r Rhaglen Ystafell Seibiant. Bydd y Grŵp Llywio Arbenigol Cenedlaethol ar Lety Diogel Cam-drin Domestig yn ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau rhag cael gafael ar gymorth. Rydym eisoes wedi ariannu Awdurdodau Lleol i ddiwallu anghenion cymorth seiliedig ar lety pob goroeswr, gan gynnwys y rhai ag anfanteision lluosog.

Rydym yn casglu data'n flynyddol ar y gefnogaeth a roddir i'r rhai sydd ag anfanteision lluosog. Mae hyn yn cynnwys ffigurau ar y rhai sydd â hanes o drosedd, cyffuriau, alcohol neu anghenion cymorth iechyd meddwl, a dioddefwyr ifanc sydd wedi cael cymorth gan wasanaethau seiliedig ar lety, yn ogystal â rhai na ellid eu cefnogi oherwydd yr anghenion hyn. Cesglir data ar aelwydydd nad ydynt wedi cael cymorth oherwydd nad oes ganddynt Unrhyw Hawl i Arian Cyhoeddus. Bydd gwerthusiad llawn o Ran 4 o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021 yn archwilio a yw gwasanaethau'n diwallu anghenion goroeswyr, gan gynnwys y rhai sydd ag anfanteision lluosog.

Yn ogystal, rydym wedi darparu £5.7 miliwn i 12 awdurdod lleol i dreialu rhaglen Ystafelloedd Seibiant 18 mis i helpu'r rhai sy'n cysgu ar y stryd y mae cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt i ddod oddi ar y stryd ac allan o berygl. Mae'r garfan hon yn arbennig o agored i niwed ac yn profi anfanteision lluosog. Fel rhan o'r cynllun peilot hwn, rydym wedi comisiynu gwerthusiad cadarn o'r rhaglen a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Ebrill 2023, gan ddarparu enghreifftiau o arfer gorau a modelau cyflwyno. Bydd hyn yn cynorthwyo comisiynwyr awdurdodau lleol i benderfynu a yw Ystafelloedd Seibiant yn addas i'w hardal, ac i ddeall beth sy'n gweithio i gefnogi'r goroeswyr bregus iawn hyn.

Yn ogystal â hynny, mae dioddefwyr trais domestig sy'n wynebu anfanteision lluosog yn cael eu cefnogi drwy'r rhaglen Newid Dyfodol ar arweinir gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC). Caiff y rhaglen Newid Dyfodol ei ariannu gan y Gronfa Deilliannau a Rennir - mewn partneriaeth ag adrannau eraill y Llywodraeth gan gynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder - ac mae'n anelu at brofi ymagweddau arloesol a gwella deilliannau ar gyfer pobl sydd yn dioddef anfantais luosog, gan gynnwys goroeswyr a dioddefwyr cam-drin domestig. Mae ardaloedd Newid Dyfodol yn cysylltu gwasanaethau sy'n ystyriol o drawma, er mwyn i bobl sy'n wynebu problemau lluosog gael yr help gydgyssylltiedig sydd ei angen arnynt nhw i newid eu bywydau er gwell. Mae'r rhaglen hefyd yn peilota gwelliannau lefelau system lleol a chenedlaethol ar gyfer cefnogi pobl sydd yn profi anfantais luosog.

Mae'r rhaglen Cefnogi Teuluoedd yn gweithio i sicrhau bod teuluoedd bregus, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu trais domestig neu wrthdaro yn y cartref, yn cael cymorth effeithiol, cydgysylltiedig er mwyn adeiladu eu gwydnwch a'u rhwystro rhag cyrraedd man argyfwng. Caiff y rhaglen hon ei arwain gan yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i gefnogi hyd at 300,000 yn fwy o deuluoedd i wneud newidiadau cadarnhaol yn eu bywydau ar draws y cyfnod adolygu gwariant hyd at 2025, gyda chefnogaeth £695m o ariannu. Mae rhai cynghorau'n defnyddio'r arian yma i

ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn seiliedig yn y gymuned, yn eu hardaloedd.

Mae sicrhau bod teuluoedd a phlant yn ddiogel rhag cam-drin domestig yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer Cefnogi Teuluoedd ac mae'n ddangosydd deilliant yn ein Fframwaith Deilliannau. Dyma'r offeryn mae awdurdodau lleol yn ei ddefnyddio i asesu angen teuluol ac yn fesur o'r hyn mae llwyddiant yn ymdebygu iddo ar draws ystod o feini prawf. Mae ein deilliant ar gam-drin domestig yn cydnabod angen ar draws y rhychwant o oedolion, plant, dioddefwyr a chyflawnwyr, ac mae'n annog ardaloedd i gefnogi teuluoedd hyd nes bod gan ddiodefwyr gynllun diogelwch clir mewn lle, yn ddiogel yn eu cartref a bod diodefwyr neu gyflawnwyr yn cael y cymorth priodol ac addas.

### **Argymhelliad 13: Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal asesiad o anghenion y cymorth sydd ar gael i ddiodefwyr a goroeswyr sydd â hanes o drosedd, a chymryd camau i fynd i'r afael â'r diffyg cymorth sydd ar gael i'r grŵp hwn o ddiodefwyr a goroeswyr.**

Mae asesiadau o anghenion yn hanfodol i lywio penderfyniadau ar sut i gomisiynu gwasanaethau lleol. Mae'r Cod Dioddefwyr yn sefydlu'r egwyddor bod gan bob diodefwyr hawl i gael ei atgyfeirio i gymorth sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion, gan gynnwys, lle bo'n briodol, gwasanaethau arbenigol. At hynny, mae'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr yn ei gwneud yn ofynnol i gomisiynwyr sicrhau bod asesiadau o anghenion yn cynnwys yr ystod amrywiol o gymorth sydd ei angen mewn unrhyw ardal leol, gan gyfeirio'n benodol at anghenion troseddwr sy'n ddiodefwyr neu'n oroeswyr ac a allai fod angen cymorth yn y carchar neu fel arall.

Mae'r Llywodraeth o'r farn y bydd y dull hwn yn sicrhau darpariaeth ddigonol o wasanaethau arbenigol, ac y byddai asesiad anghenion ar wahân a gynhelir yn ganolog ar gyfer y grŵp hwn yn dyblygu gwaith sy'n mynd rhagddo ar lefel leol.

O ran y troseddwr hynny a gefnogir gan y Gwasanaeth Prawf, sydd naill ai'n ddiodefwyr neu'n gyflawnwr cam-drin domestig, unwaith y bydd troseddwr wedi'i ddedfrydu, yna cânt eu hasesu gan ddefnyddio'r System Asesu Troseddwr (OASys). Bydd pob unigolyn a ddedfrydwyd, (ac eithrio'r rhai sy'n derbyn gofynion ar eu pen eu hunain, megis Gorchmynion Gwaith Di-dâl annibynnol) yn cael asesiad llawn sy'n cynnwys cwestiwn penodol ynghylch a oes tystiolaeth o gam-drin presennol neu flaenorol, boed fel diodefwyr neu gyflawnwr, wedi'i lywio gan hunan-ddatganiad a chasglu gwybodaeth gan HMPPS ac asiantaethau partneriaeth. Mae OASys yn cael ei ddiwygio a'i ddiweddarau lle mae unrhyw newidiadau arwyddocaol mewn amgylchiadau (llithro'n ôl i gamddefnyddio sylweddau, aildrosedd, colli llety, perthynas newydd ac ati). Mae hyn yn galluogi'r Ymarferydd Prawf i deilwra cymorth i gynorthwyo'r troseddwr unigol orau.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio'n agos gyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cymorth, gan gynnwys rhai'n canolbwyntio ar gam-drin domestig. Ers mis Mehefin 2018, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi buddsoddi £9.5 miliwn mewn cyllid grant i sefydliadau sy'n cefnogi menywod yn y System Cyfiawnder Troseddol, neu sydd mewn perygl o ddod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol ac roedd £2 filiwn ohono'n benodol ar gyfer y rhai sydd wedi profi cam-drin domestig, gyda chystadleuaeth grantiau aml-flwyddyn arall a lansiwyd ym mis Medi 2022 am hyd at £24 miliwn. Mae hyn yn ychwanegol at y dros £45 miliwn a ddyfarnwyd gan y gwasanaeth prawf i sefydliadau i ddarparu cymorth cofleidiol yn y gymuned i fenywod rhwng Mehefin 2021 a Mawrth 2025, a fydd yn cynnwys cymorth i ddiodefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

**Argymhelliad 14: Dylai'r Swyddfa Gartref annog deiliaid Dyletswydd Atal Trais Difrifol i sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei gynnwys mewn gwaith i fynd i'r afael ag amrywiaeth o ffactorau risg uchel o ran cynnwys trais difrifol mewn mannau cyhoeddus.**

Yn ystod taith seneddol Deddf Plismona, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd 2022, diwygiodd y Llywodraeth fesurau'r Ddyletswydd Trais Difrifol i egluro bod cam-drin domestig (DA) a throseddau rhywiol (SO) yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y term 'trais' at ddibenion y Ddyletswydd Trais Difrifol ac y gall ardaloedd lleol ystyried a yw'r troseddau hyn yn gyfystyr â thrais difrifol.

Ers hynny mae'r Canllawiau Statudol ar Ddyletswydd Trais Difrifol wedi'i ddiweddarau a'u cyhoeddi i egluro bod camau ar gam-drin domestig ac SO yn cael ei annog, lle mae gweithgarwch ataliol yn cael ei gyfeirio at ffactorau risg a rennir ar draws mathau o droseddau. Mater i awdurdodau penodol, yn y pen draw, fydd penderfynu pa fathau o drais sy'n gyfystyr â "thrais difrifol" yn eu hardal leol, yn unol â'r ddeddfwriaeth, a datblygu strategaethau i dargedu'r trais hwnnw.



## **Comisiynwyr Lleol (Argymhellion 15, 16, 17 a 21)**

Mae'r argymhellion uchod ar gyfer Comisiynwyr ar lefel lleol ac felly nid yw'r Llywodraeth yn ymateb yn uniongyrchol i'r rhain. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn gefnogol i'r nodau cyffredinol a byddai'n argymhell bod comisiynwyr lleol yn darllen ac yn ystyried y rhain yn ofalus.

Gwyddom pa mor bwysig yw hi i ddiodefwyr gael pecyn cymorth cyfannol, sydd ar gael yn hawdd. Mae'r Llywodraeth yn cytuno bod angen i gomisiynwyr lleol ystyried hyn yn ganolog i gefnogi gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr lleol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid grant blynyddol i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd (PCCau) i gomisiynu gwasanaethau cymorth lleol, yn seiliedig ar eu hasesiad o angen. Fel rhan o amodau cyllid grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gall PCCau ddefnyddio eu cyllid ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig mewn perthynas â'r broses o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr, a all eu cefnogi i gymryd model adennill costau llawn gyda'u darparwyr. Fel rhan o'r canllawiau comisiynu o dan y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, byddwn yn archwilio beth arall y gallwn ei wneud yn y maes hwn i annog comisiynwyr i ystyried model adennill costau llawn.

Mae'n dal yn bwysig gosod safon genedlaethol ar gyfer comisiynu'r strategaethau a'r gwasanaethau lleol hyn. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei rôl wrth sicrhau'r cysondeb hwn.

Ym mis Mawrth 2022 cyhoeddodd y Swyddfa Gartref fersiynau wedi'u diweddarau o'r Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol (NSE) a'r Pecyn Cymorth Comisiynu VAWG cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn yn darparu canllawiau clir a chyson i ardaloedd lleol ar sut i gomisiynu gwasanaethau cymorth effeithiol i ddiodefwyr VAWG (gan gynnwys cam-drin domestig).

Fel rhan o'r NSE, nododd y Llywodraeth ei disgwyliad bod strategaethau a gwasanaethau lleol yn cael eu harwain yn lleol ac yn diogelu unigolion ar bob adeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynir yn defnyddio mentrau a gwasanaethau lleol sydd eisoes ar waith i ddefnyddio adnoddau, rhannu arfer gorau a sicrhau bod llwybrau cymorth cysylltiedig.

Mae hefyd yn cyngori bod comisiynwyr yn codi ymwybyddiaeth o'r materion ac yn cynnwys, ymgysylltu a grymuso cymunedau i geisio, dylunio a darparu atebion.

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd DLUHC ganllawiau statudol ar gymorth i ddiodefwyr cam-drin domestig mewn gwasanaethau seiliedig ar lety. Datblygwyd hwn ar ôl ymgynghoriad llawn gyda'r sector.

**Argymhelliad 15: Dylai Comisiynwyr ariannu gwasanaethau gan ddefnyddio model adennill costau llawn, gan gynnwys mynediad at ddehonglwyd, cymorth cyfathrebu, a goruchwyliaeth glinigol. Dylai unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol sy'n cael eu cyhoeddi gan y Llywodraeth adlewyrchu'r disgwyliad hwn.**

Mae Canllawiau Statudol DLUHC yn cynnwys cyfarwydddeb y dylai 'awdurdodau Haen un sicrhau gwasanaethau cymorth a'u darparu mewn lleoliadau a ffyrdd sy'n hygyrch i bob diodefwyr, gan gynnwys eu plant'. Mae hyn yn cynnwys addasiadau fel gwasanaethau cyfieithu, dehonglwyd iaith Arwyddion Prydain a dogfennau hawdd eu darllen ar gyfer y rhai ag anabledau dysgu a phroblemau lleferydd ac iaith. Mae'n amlwg hefyd y dylai cymorth gael ei ddarparu gan ddarparwyr arbenigol gwybodus a/neu brofiadol, elusennau, a sefydliadau gwirfoddol eraill.

**Argymhelliad 16: Dylai Comisiynwyr sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hariannu i godi ymwybyddiaeth yn rhagweithiol o'u gwasanaethau a chynnal allgymorth. Dylaigwefannau comisiynwyr lleol hefyd fod yn glir ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal, ac i bwy.**

Mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai gwefannau comisiynwyr lleol fod yn glir ynghylch pa wasanaethau sydd ar gael yn eu hardal nhw, ac i bwy, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n hawdd eu cyrraedd. Fel rhan o'n gwaith i adnewyddu'r canllawiau comisiynu sydd ar gael, byddwn yn ystyried sut y gallwn annog a gweithio gyda chomisiynwyr i nodi'r argymhelliad hwn.

**Argymhelliad 17: Dylai comisiynwyr lleol, a gwasanaethau a gomisiynir, fod yn glir ar eu gwefannau pwy all gael mynediad at eu gwasanaethau, a rhoi eglurder a yw gwasanaethau'n gynhwysol.**

**Argymhelliad 21: Dylai comisiynwyr lleol weithio gydag asiantaethau a gwasanaethau statudol yn eu hardal i ddatblygu llwybrau cymorth cydgysylltiedig a di-dor i ddiodefwyr a goroeswyr ag anghenion lluosog, yn enwedig i'r rhai sy'n wynebu anfanteision lluosog.**

Fel y nodir uchod, mae'r Llywodraeth yn cytuno y dylai comisiynwyr lleol, a gwasanaethau a gomisiynir, fod yn glir ar eu gwefannau sy'n gallu cael mynediad at eu gwasanaethau, a rhoi eglurder a yw gwasanaethau'n gynhwysol. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn darparu cyllid grant blynyddol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau i gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr lleol. Mae amodau'r grant yn glir y dylai gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr a gomisiynir gan ddefnyddio cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnwys cymorth wedi'i deilwra i ddiodefwyr troseddau â nodweddion gwarchoddedig.

Fel rhan o'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, fe wnaethom gyflwyno cyfres o safonau cenedlaethol yr ydym yn disgwyl i bob comisiynydd gwasanaethau cymorth i ddiodefwyr eu bodloni, er mwyn darparu'r cymorth gorau posibl i bob diodefwyr. Un o'r safonau hyn yw 'mecanweithiau clir a chyson ar gyfer adrodd a gwerthuso.' Er mwyn bodloni'r safon hon, mae'n ofynnol i gomisiynwyr, cyn belled ag y bo modd, sicrhau ac annog casglu data demograffig a chydaddoldeb y diodefwyr sy'n cael eu cefnogi. Cyflwynodd y Strategaeth Ariannu Dioddefwyr hefyd fetrigau gosod craidd i bob adran, comisiynydd a gwasanaeth eu casglu, a oedd yn cynnwys metrigau demograffig.

Un arall o'r safonau hyn yw 'dull system gyfan o gomisiynu', sy'n amlinellu'r disgwyliad y bydd comisiynwyr yn gweithio'n agos gyda chomisiynwyr, asiantaethau, a gwasanaethau eraill yn eu hardal, i leihau'r angen i ddiodefwyr rannu eu profiad sawl gwaith, ac i gynnig taith ddi-dor drwy'r system gymorth. Mae hyn yn cynnwys rhannu data a rhannu gwybodaeth lle bo modd. Rydym yn annog comisiynwyr i fod yn rhan o o leiaf un bwrdd lleol neu strategaeth i gefnogi'r safon hon. Yn ogystal â hyn, fel rhan o'r gwaith canllawiau comisiynu sydd diwygiedig, byddwn yn ymgysylltu â chomisiynwyr lleol i archwilio'r ffyrdd gorau o annog cydgysylltu, a sut y gallwn helpu i feithrin partneriaethau gwell.

Er nad yw'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagnodi sut y dylai comisiynwyr weithio gyda'u gwasanaethau a'u hasiantaethau statudol, mae'r ddyletswydd sydd ar ddod i gydweithio yn y Bil Dioddefwyr a'r Ddyletswydd Atal Trais Difrifol yn Neddf yr Heddlu, Troseddau, Dedfrydu a Llysoedd (2022) ill dau yn anelu at hwyluso cydweithio aml-asiantaeth gwell rhwng comisiynwyr. Gallai'r rhain fod yn sail ddefnyddiol i gomisiynwyr weithio gyda'u darparwyr lleol wrth iddynt ystyried anghenion lluosog diodefwyr ar wahanol gamau.

Mae sefydlu Systemau Gofal Integredig a Byrddau Gofal Integredig (ICBs) yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o anghenion iechyd lleol dioddefwyr cam-drin. Mae'n ofynnol i ICBs nodi sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr camdriniaeth yn eu Cynlluniau Blaen ar y Cyd. Mae GIG Lloegr yn datblygu canllawiau i gynorthwyo ICBs i wneud hynny cyn eu cyhoeddi eleni.

## **Dioddefwyr a goroeswyr ag anableddau dysgu (Argymhelliad 18 & 19)**

**Argymhelliad 18: Dylai'r Swyddfa Gartref ystyried sut y gellir cysylltu ymgyrchoedd cyfathrebu cenedlaethol ag ymgyrchoedd lleol, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.**

Lansiodd y Llywodraeth ei hymgyrch newid ymddygiad VAWG hirdymor, genedlaethol, 'Digon', ym mis Mawrth 2022, gyda cham pellach o weithgarwch ymgyrchu ym mis Hydref. Mae tair elfen i'r ymgyrch: herio cyflawnwyr; addysgu pobl ifanc a chefnogi dioddefwyr.

Mae gwefan yr ymgyrch yn cynnig gwasanaeth cyfeirio ar gyfer sefydliadau cymorth cenedlaethol sy'n cynnwys amrywiaeth o fathau o gam-drin a chanllawiau ar sut i roi gwybod am gam-drin.

Mae'r tîm yn gweithio'n agos gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, heddluoedd unigol ac awdurdodau lleol i hyrwyddo'r ymgyrch ar lefel lleol. Mae hyn yn cynnwys darparu asedau y gellir eu golygu i gynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanhaethau cymorth lleol.

**Argymhelliad 19: Dylai'r Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg, gan weithio gyda'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth sy'n canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ymhlith pobl ag anableddau dysgu.**

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i fynd i'r afael â cham-drin pobl sy'n byw ag anabledd. Fel y dywedwyd yn gynharach, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder y bydd y Gronfa SSS VAWG yn dyrannu dros £8.4 miliwn i wasanaethau 'gan ac ar gyfer' arbenigol dros ddwy flynedd, gyda'r mwyafrif o'r cyllid (hyd at £6 miliwn) wedi'i neilltuo ar gyfer gwasanaethau 'gan ac ar gyfer' yn unig.

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022, roedd tua 1 o bob 10 (10.3%) o bobl anabl 16 oed a hŷn yng Nghymru a Lloegr wedi profi cam-drin domestig yn y 12 mis diwethaf, o'i gymharu â thua 1 o bob 25 (4%) nad ydynt yn bobl anabl. Roedd menywod anabl (13.1%) fwy na dwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf na menywod nad ydynt yn anabl (5.6%) (y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022).

Gan gysylltu ag Argymhelliad 18, mae'r Swyddfa Gartref yn ymrwymo i sicrhau bod pob ymgysylltiad yn effro i anghenion pobl sy'n byw ag anabledd a phobl hŷn wrth ddatblygu strategaethau cyfathrebu cenedlaethol. Yn benodol, cysylltu ag asiantaethau statudol mewn timau diogelu awdurdodau lleol, partneriaid plismona lleol ac iechyd. Bydd y Swyddfa Gartref yn hyrwyddo ymgyrchoedd ymwybyddiaeth sy'n diwallu anghenion penodol pawb sy'n unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ysgwyddo pryder penodol y DAC am bobl ag anabledd dysgu. Mae ymgyrch genedlaethol hirdymor y Llywodraeth i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, 'Digon' wedi'i chreu gyda rhanddeiliaid yn cynorthwyo dioddefwyr anabl cam-drin domestig. Mae asedau'r ymgyrchu yn cynnwys

pobl ag anableddau tra bod gwefan yr ymgyrch yn cynnwys crynodeb Hawdd ei Ddarllen, crynodeb fideo Iaith Arwyddion Prydain a thudalen gymorth sy'n cyfeirio sefydliadau sy'n gweithio gyda dioddefwyr anabl.

Mae'r Swyddfa Gartref a DHSC hefyd yn cynnal Adolygiad Gofal Diogel yn y Cartref i'r amddiffyniadau presennol ar gyfer oedolion ag anghenion gofal a chymorth yn cael eu cam-drin yn eu cartrefi eu hunain gan bobl sy'n darparu eu gofal a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin o'r fath. Mae'r Adolygiad wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gasglu mewnbwn gan grwpiau sy'n cynrychioli pobl sy'n byw ag anableddau a phobl sy'n darparu gofal i ddeall eu profiadau bywyd.

Mae gan awdurdodau lleol a oruchwylir gan DLUHC gyfrifoldeb gweithredol i ddarparu gofal cymdeithasol a diogelu mewn cymunedau felly sydd yn y sefyllfa orau i ddatblygu gwasanaethau cymorth trawsbynciol sy'n cysylltu â thai, iechyd a phlisma trwy dimau diogelu gofal cymdeithasol.

Mae'r Adran Addysg yn parhau i godi ymwybyddiaeth drwy addysg perthnasoedd, rhyw ac iechyd. Mae disgyblion ysgol ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau (SEND) bellach yn cael eu haddysgu am berthnasoedd statudol, addysg rhyw ac iechyd.

Fel rhan o'r testun 'bod yn ddiogel', caiff disgyblion eu haddysgu am ffiniau, preifatrwydd a sut i adnabod ac adrodd pan fydd rhywun yn gwneud iddynt deimlo'n anhapus neu'n anniogel. Yn yr ysgol uwchradd caiff disgyblion eu haddysgu am y cysyniadau a'r cyfreithiau sy'n ymwneud â phob math o gam-drin, gan gynnwys cam-drin domestig. Bydd angen gwahaniaethu hyn yn briodol i ddisgyblion SEND ac i gefnogi athrawon i wneud hyn byddwn wedi datblygu modiwl hyfforddi athrawon.

## IDVAs ac ISVAs (Argymhelliad 22)

**Argymhelliad 22: Dylai cyrff ariannu ystyried yr angen am gymorth ychwanegol trwy weithwyr achos un-i-un ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr nad ydynt efallai'n cyrraedd y trothwy ar gyfer IDVA, er mwyn cynnal achosion a chydgysylltu'r ystod o gymorth a gwasanaethau sydd eu hangen ar ddioddefwyr a goroeswyr.**

Rydym yn cydnabod bod cymorth wedi'i deilwra ac arbenigol i ddioddefwyr cam-drin domestig yn hanfodol i alluogi dioddefwyr i ymdopi ac adfer. Rydym yn cynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a thystion mwy na phedair gwaith erbyn 2024/25 o £41 miliwn yn 2009/10. O fewn hyn, rydym yn darparu cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar gyfer ISVAs ac IDVAs yn ogystal â chyllid wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau cymorth cam-drin domestig ehangach a thrais rhywiol ehangach – mater i ddisgresiwn y Comisiynydd yw sut y maent yn dyrannu'r cyllid hwn, yn seiliedig ar eu hasesiad o anghenion lleol.

Er y bydd y Bil Dioddefwyr yn canolbwyntio ar ffurfioli rôl IDVAs ac ISVAs, o ystyried mai dyma rai o'r rolau eirioli mwyaf cyffredin ac adnabyddus, rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i barhau i ystyried sut y gall y llywodraeth, os yw'n briodol, gefnogi eiriolaeth a gwasanaethau rolau cymorth eraill ymhellach. Wrth ddrafftio canllawiau statudol IDVA y bydd Bil Dioddefwyr yn darparu ar eu cyfer, byddwn yn sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu fframio fel rhan o dirwedd ehangach o gymorth cam-drin domestig.

## **Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (Argymhelliad 23, 24 & 25)**

**Argymhelliad 23: Dylai'r Adran Iechyd, ar y cyd â GIG Lloegr, ddatblygu rhaglen waith uchelgeisiol i wella ymwybyddiaeth gweithwyr iechyd proffesiynol o gam-drin domestig o fewn lleoliadau gofal iechyd ac ymateb iddo, ac i feithrin partneriaethau rhwng gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol a gwasanaethau iechyd.**

Mae'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol hyfforddiant digonol ar gam-drin domestig i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gan fod ymchwil yn dangos bod dioddefwyr yn fwy tebygol o ddatgelu cam-drin domestig i weithiwr gofal iechyd proffesiynol nag i wasanaethau eraill. Dyna pam y mae holl staff y GIG yn ymgymryd ag hyfforddiant diogelu gorfodol sy'n cynnwys canolbwyntio ar gam-drin domestig. Mae GIG Lloegr yn parhau i adolygu hyfforddiant i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn meddu ar y sgiliau, y wybodaeth, a'r egwyddorion allweddol i amddiffyn pob dinesydd.

Fel y cydnabuwyd yn y Strategaeth Iechyd Menywod (DHSC, 2022), gall cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched gael effaith sylweddol ar iechyd dioddefwyr a goroeswyr. Ymrwymodd DHSC a GIG Lloegr yn y strategaeth honno i sicrhau bod cydnabyddiaeth a dealltwriaeth ehangach bod trais a cham-drin yn fater iechyd cyhoeddus. Mae sefydlu Systemau Gofal Integredig a Byrddau Gofal Integredig (ICBs) yn rhoi cyfle i gael gwell dealltwriaeth o anghenion iechyd lleol dioddefwyr cam-drin. Mae'n ofynnol i ICBs nodi sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr camdriniaeth yn eu Cynlluniau Blaen ar y Cyd. Mae GIG Lloegr yn datblygu canllawiau i gynorthwyo ICBs i wneud hynny cyn eu cyhoeddi eleni.

Yn ogystal, mae gan Strategaeth Iechyd Menywod ymrwymiad bod gwasanaethau a staff y GIG yn gallu cefnogi dioddefwyr trais a chamdriniaeth a bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i adnabod ac ymateb i ddioddefwyr a chyflawnwyr. Mae gweithwyr iechyd a gofal yn deall effaith trauma ac mae ganddynt yr offer sydd ar gael i gymryd rhan mewn ymarfer gwybodus am drawma.

Mae GIG Lloegr wedi sefydlu Rhaglen Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol benodedig ac wedi penodi arweinydd cenedlaethol i ddarparu arweinyddiaeth a chymorth penodol i GIG Lloegr, Byrddau Gofal Integredig a'r GIG ehangach. Ar hyn o bryd mae'n datblygu rhaglen waith uchelgeisiol i drawsnewid ymateb y GIG i gam-drin domestig a thrais rhywiol ar sail profiad bywyd, arbenigwyr clinigol a chydweithio ar draws rhanddeiliaid gan gynnwys sefydliadau trydydd sector.

Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi ymrwymo i fuddsoddi hyd at £7.5 miliwn mewn ymyriadau cam-drin domestig mewn lleoliadau gofal iechyd dros dair blynedd, gan gynnwys uwchsgilio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i sicrhau eu bod yn gallu nodi a chyfeirio dioddefwyr yn effeithiol at systemau cymorth.

**Argymhelliad 24: Dylai'r Adran Iechyd sicrhau bod ymyriadau iechyd meddwl amserol a phriodol ar gael i gefnogi anghenion iechyd meddwl dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.**

Mae DHSC drwy GIG Lloegr yn buddsoddi o leiaf £2.3 biliwn o gyllid ychwanegol y flwyddyn erbyn 2023-24 i ehangu a thrawsnewid gwasanaethau iechyd meddwl yn Lloegr fel y bydd dwy filiwn yn fwy o bobl yn gallu cael cymorth iechyd meddwl.

Darparodd DHSC drwy GIG Lloegr £500 miliwn ychwanegol ar gyfer 2021/22 hefyd, i gyflymu ein cynlluniau ehangu iechyd meddwl y GIG. Roedd hyn yn cynnwys £110 miliwn i ehangu gwasanaethau iechyd meddwl oedolion, gan gynnwys therapïau siarad a seicolegol (IAPT), gweithredu'r fframwaith iechyd meddwl cymunedol, buddsoddi mewn gwasanaethau argyfwng a chynnal y gwaith o ddarparu llinellau cymorth iechyd meddwl brys 24/7 a safodd yn gynharach yn y pandemig, yn ogystal â buddsoddiad ychwanegol mewn rhaglenni atal hunanladdiad.

Dros y Gwanwyn cynhaliodd y llywodraeth alwad 12 wythnos am dystiolaeth ar beth arall y gallwn ei wneud i gefnogi Iechyd Meddwl a Lles ac Atal Hunanladdiad yn y tymor hwy a byddwn yn ymateb maes o law.

Mae prosiectau 'braenaru' lleol ar waith ar gyfer cymorth iechyd meddwl gwell gwybodus am drawma ar gyfer dioddefwyr cam-drin rhywiol a goroeswyr sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. Fel un o flaenoriaethau cyflawni Cynllun Tymor Hir GIG Lloegr, mae 7 rhanbarth y GIG yn parhau i ddatblygu safleoedd arloesi Iechyd Meddwl Gwell. Mae hyn gyda'r nod o gefnogi dioddefwyr/goroeswyr yn well i gael eu cyfeirio at lwybrau therapiwtig ymosodiad rhywiol a cham-drin priodol gan gynnwys ymyriadau trawma cymhleth. Mae timau clinigol yn cael eu penodi yn y De-orllewin gyda rhanbarthau eraill naill ai'n dilyn drwy ysgogi neu ymgymryd â phrosesau caffael. Mae enghreifftiau'n dod i'r amlwg o bartneriaethau amlasiantaethol arloesol rhwng ICS, darparwyr iechyd meddwl Gwirfoddol a'r GIG a bydd pob safle arloesi yn destun gwerthusiad llawn.

### **Argymhelliad 25: Dylai gwasanaethau iechyd gofnodi atgyfeiriadau maent yn eu gwneud i MARAC er mwyn monitro perfformiad iechyd ac ymateb ar lefel Ymddiriedolaeth.**

Mae GIG Lloegr yn ymrwmo i ddatblygu monitro perfformiad iechyd ac ymateb ar lefel Ymddiriedolaeth. Oherwydd aeddfedwydd amrywiol ICBs, efallai bod rhai eisoes wedi datblygu systemau adrodd y tu allan i MARAC ac rydym am ganiatáu i ICBs benderfynu'n lleol sut y maent yn datblygu eu systemau perfformiad a monitro.

Rhaid i ICBs nodi sut y byddant yn mynd i'r afael ag anghenion penodol dioddefwyr camdriniaeth, gan gynnwys cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, yn eu Cynlluniau Blaen ar y Cyd. Mae GIG Lloegr wedi datblygu canllawiau ar gyfer ICBs a fydd yn cael eu cyhoeddi'n fuan sy'n cynnwys opsiynau casglu data fel rhan o'r Ddyletswydd Trais Difrifol.

Mae atgyfeiriadau MARAC yn un ymhlith llawer o setiau data a all ddarparu gwybodaeth am ba mor gyffredin yw cam-drin domestig. Mae data MARAC eisoes yn cael ei gyflwyno i SafeLives, gan MARACs unigol bob chwarter ac mae'n cynnwys nifer yr achosion a gyfeiriwyd gan bob asiantaeth. Bob chwarter mae'r data'n cael ei goladu a'i gyhoeddi i greu set ddata genedlaethol. Er nad yw'n darparu data ar lefel Ymddiriedolaeth, mae'n darparu data ar atgyfeiriadau fesul iechyd o fewn ardaloedd a rhanbarthau heddluoedd, wedi'u dadansoddi yn ôl gofal sylfaenol, gofal eilaidd/Ymddiriedolaethau aciwt, ac iechyd meddwl.

Mae gwaith ar ddeall a chofnodi pa mor gyffredin yw data iechyd Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) yn mynd rhagddo. Roedd y Strategaeth Iechyd Menywod (DHSC, 2022) yn cynnwys ymrwymiad cyhoeddus i weithio gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) i ddeall data iechyd ar VAWG yn well gyda'r nod o wella profiadau gwasanaeth. Mae dau gam cyntaf y prosiect hwn wedi dod i ben. Bydd DHSC yn bwrw ymlaen â'r prosiect hwn ac yn cynnal ymarfer blaenoriaethu i benderfynu pa ganfyddiadau allweddol

i'w harchwilio ymhellach. Roedd canfyddiadau dau gam cyntaf y prosiect hwn yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o godau o fewn setiau data iechyd a allai ddangos VAWG, a'r prif rwystrau ar gyfer cofnodi ac adnabod VAWG mewn lleoliadau gofal iechyd.



## **Strategaeth Ariannu Dioddefwyr (Argymhelliad 26)**

**Argymhelliad 26: Dylai'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, a chanllawiau cenedlaethol i gomisiynwyr ar gomisiynu gwasanaethau, nodi'n glir bwysigrwydd gwasanaethau annibynnol mewn unrhyw ganllawiau statudol neu anstatudol. Lle deuir â gwasanaethau'n fewnol, dylid rhannu'r wybodaeth hon gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau a Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig i ddeall pam ac i fonitro newidiadau dros amser.**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau cymorth annibynnol i ddioddefwyr i sicrhau bod pob dioddefwr, waeth beth fo'r drosedd neu pryd y digwyddodd, yn teimlo'n gyfforddus yn cael mynediad at gymorth. Fel rhan o'r Strategaeth Ariannu Dioddefwyr, ymrwymodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i adolygu ac adnewyddu canllawiau comisiynu presennol ar gyfer comisiynwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Byddwn yn defnyddio'r cyfle hwn i archwilio gyda chomisiynwyr a'r sector sut mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu ar hyn o bryd a ble y gellid gwneud gwelliannau, gan gynnwys edrych ar fynychder gwasanaethau cymorth mewnol a sut y gallwn weithio gyda chomisiynwyr i fonitro'r gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, er y dylai comisiynwyr lleol fod yn fwy atebol am y gwasanaethau y maent yn eu comisiynu, rydym yn ystyried mai nhw sy'n parhau yn y sefyllfa orau i benderfynu pa wasanaethau y dylid eu comisiynu yn eu hardal.

Fel rhan o gasgliad data blynyddol DLUHC i fonitro'r cymorth cam-drin domestig mewn dyletswyddau llety diogel, byddwn yn cynnwys cwestiwn i ofyn i awdurdodau lleol a oes ganddynt unrhyw wasanaethau yn fewnol, neu'n bwriadu dod â nhw'n fewnol. Fodd bynnag, bydd ein prif ffocws bob amser ar ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau, yn hytrach na'r math o ddarparwr.

# Casgliad

Hoffem ddiolch i'r Comisiynydd Cam-drin Domestig am ei gwaith wrth lunio'r adroddiad hwn. Mae'r ymatebion i'r argymhellion yn ei hadroddiad yn dangos ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Mae mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon. Yn unol â'n hymrwymiad yn y Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig, byddwn yn parhau i leihau nifer yr achosion o VAWG drwy gefnogi dioddefwyr (a goroeswyr), blaenoriaethu atal, erlid cyflawnwyr a chreu system gryfach.

Rydym yn deall pwysigrwydd gwasanaethau cymorth i dioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig, ac rydym yn parhau i fuddsoddi arian i feithrin eu gallu. Mae hefyd yn hanfodol bod cymorth nid yn unig ar gael, ond yn effeithiol. Rydym yn parhau i ariannu grantiau a phrosiectau i ymchwilio i effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth. Rydym yn ymwybodol y gall dioddefwyr a goroeswyr hefyd geisio cymorth yn rhywle arall, megis ymddiried mewn gweithwyr iechyd proffesiynol. Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddi staff rheng flaen i sicrhau, pan fydd hyn yn digwydd, bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu cyfeirio at y cymorth cywir.

Fel mae'r adroddiad hwn wedi'i amlygu, mae dioddefwyr a goroeswyr yn aml yn dibynnu ar wasanaethau sy'n agos at eu cartrefi. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau o'r fath yn hygyrch i bob dioddefwr a goroeswr, gan gynnwys y rheini mewn cymunedau gwledig sy'n wynebu'r heriau ychwanegol a achosir gan natur wledig. Rydym yn cydnabod y gall materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus a chysylltedd band eang gwael, yn ogystal â diffyg anhysbysrwydd mewn cymunedau llai, lesteirio gallu dioddefwyr gwledig i gael mynediad at wasanaethau cymorth neu hyd yn oed adrodd am eu cam-drin. Rhaid ystyried yr heriau hyn wrth ddylunio a dosbarthu gwasanaethau cymorth i ddiwallu anghenion dioddefwyr a goroeswyr gwledig.

Rydym yn cydnabod y rôl bwysig y mae comisiynwyr lleol, fel Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau, yn ei chwarae wrth sicrhau bod y cymorth cywir ar gael. Mae adrannau ar draws y llywodraeth wedi cyhoeddi canllawiau i ddarparu safon y mae'r Llywodraeth yn disgwyl iddi gael ei chyrraedd ledled y wlad. Fodd bynnag, yn y pen draw, penderfyniadau y mae angen eu gwneud ar lefel leol. Mae'r Llywodraeth yn argymhell yn gryf bod comisiynwyr lleol yn ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd iddynt.

Yn y pen draw, rydym am atal troseddau VAWG, gan gynnwys cam-drin domestig, rhag digwydd byth. Rydym yn gweithio'n galed i herio'r agweddau sy'n arwain at droseddau o'r fath ac wedi buddsoddi mewn ymgyrch gyfathrebu genedlaethol "Digon". Mae hyn, ynghyd ag ymdrechion eraill megis addysgu Addysg Perthynas a Rhyw (RSE) statudol, yn helpu i herio'r ymddygiadau hyn.

Rydym yn deall bod mwy i'w wneud ac yn edrych ymlaen at weithio gyda Swyddfa'r Comisiynydd Cam-drin Domestig ymhellach i helpu i gyflawni hyn.







